IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

DYDD GWENER, 23 MAWRTH 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd (Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Caerhirfryn, Mackie a/ac Williams |

1 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni chafwyd unrhyw rai.

2 : CAIS AM AMRYWIO TRWYDDED SAFLE - ADEILADAU'R GYFNEWIDFA, SGWÂR MOUNT STUART

Cafodd y cais hwn ei dynnu'n ôl.

3 : CAIS AM GANIATÁU TRWYDDED SAFLE - CHICKOLAND, ALBANY ROAD

Ymgeisydd: Mr Abdelkrim Yahiaoui – Perchennog Chickoland, 132b Albany Road, Caerdydd, CF24 3RU.

Daeth cais i gymeradwyo Trwydded Safle i law gan Mr Abdelkrim Yahiaoui mewn perthynas â Chickoland, 132b, Albany Road, Caerdydd, CF24 3RU.

Mae'r ymgeisydd wedi gwneud cais am y canlynol:

- Darparu lluniaeth hwyr y nos:
- Dydd Llun i ddydd Iau: 17:00 tan 00:00
  Dydd Gwener i ddydd Sul: 17:00 tan 01:00
  Noswyl Nadolig, Dydd Nadolig, Nos Galan, Dydd Calan: 17:00 tan 02:00

Atodwyd copi o'r amodau ychwanegol a gynigiodd yr ymgeisydd i fodloni amcanion trwyddedu i'r adroddiad, a oedd yn cynnwys arwyddion yn gofyn i gwsmeriaid fod yn ddistaw a pharchu'r ardal wrth adael y safle, a darparu Teledu Cylch Cyfyng hefyd, yn unol â chais Heddlu De Cymru.

Cafodd sylwadau eu derbyn mewn perthynas â'r cais ac atodwyd copïau ohonynt i'r adroddiad.

<u>Sylwadau'r Ymgeisydd:</u>

Eglurodd Mr Yahiaoui i'r Aelodau fod ei fusnes yn gwerthu cludfwyd/bwyd brys megis cyw iâr, pizza a kebab, rhwng 5pm ac 11pm; ac roedd hefyd yn cynnig gwasanaeth cludo drwy Just Eat a Hungry House rhwng 5.30pm ac 11pm. Roedd yn teimlo bod busnes wedi bod yn eithaf araf, a'i fod yn colli busnes drwy gau am 11pm. Ychwanegodd fod busnesau lleol eraill yn cau am hanner nos neu'n hwyrach, a'i fod yn colli'r cwsmeriaid oedd yn mynd heibio ar ôl 11pm.

Dywedodd wrth Aelodau ei fod wedi cytuno i’r amodau gan Heddlu De Cymru i osod Teledu Cylch Cyfyng, a’i fod wedi cynnig gosod arwyddion i ofyn i gwsmeriaid adael y safle’n ddistaw.

Mewn ymateb i wrthwynebiad a ddaeth i law gan y Cynghorydd Peter Wong, ar y sail ei fod yn ardal breswyl ac o ystyried y perygl o niwsans i’r cyhoedd, eglurodd Mr Yahiaoui mai landlord y siop oedd yn byw yn y fflat uwchben y busnes, a dywedodd eto fod busnesau eraill ar agor yn hwyrach na'i fusnes ef ar hyn o bryd.

Pan ofynnwyd iddo a oedd yn credu ei fod wedi lliniaru unrhyw bryderon ynghylch niwsans i'r cyhoedd, dywedodd wrth Aelodau ei fod wedi gwneud hynny, gan ychwanegu fod ganddo dros 20 mlynedd o brofiad yn y diwydiant.  Ychwanegodd na fyddai amrywio’r oriau yn atynnu unrhyw fusnes newydd, ond y byddai’n medru denu unrhyw gwsmeriaid sy’n cerdded heibio o’r dafarn leol.

PENDERFYNWYD:

Wedi ystyried yr holl wybodaeth ac yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003, Canllaw Adran 182 a Pholisi Datganiad Trwyddedu'r Awdurdod Trwyddedu, gymeradwyo’r cais â’r amodau ychwanegol a gynigiwyd gan yr ymgeisydd i fodloni’r amcanion trwyddedu.

4 : COFRESTRIADAU CYMDEITHASAU BYCHAIN AR GYFER Y LOTERI

PENDERFYNWYD:  Y dylid diddymu'r cofrestriadau Loteri Cymdeithas Fach a ganlyn gan nad oeddynt wedi talu'r ffi flynyddol:

- Clwb Rygbi a Phêl-droed yr Eglwys Newydd
- Mini & Juniors – Clwb Rygbi a Phêl-droed Llanisien
- Cylch y Coed